COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 149

**Amseru:** Brys – rhaid cytuno i'r lleoliad erbyn 30/09/19 a'i gychwyn erbyn 01/11/19

**Teitl:** Interniaeth ar y cyd â'r Brifysgol Agored – ail fyfyriwr

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Gweithlu

**Crynodeb Gweithredol:**
Fel y nodwyd ym Mhenderfyniad DLl 126, cytunodd y Comisiynydd y byddai SCHTh yn cyflogi myfyriwr interniaeth am 10 wythnos, am gost o £1,575, ar y cyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.
Gan fod prinder staff ar hyn o bryd (oherwydd salwch hirdymor) o fewn y tîm ymgysylltu, gofynnwyd i'r panel recriwtio nodi dau ymgeisydd llwyddiannus. Bydd un myfyriwr yn gweithio o fewn y tîm sicrwydd, a bydd un arall yn gweithio gyda'r tîm ymgysylltu.
Roedd y broses recriwtio'n arbennig o gystadleuol. Derbyniwyd 26 cais, a gwahoddwyd 9 myfyriwr i gyfweliad. Cynigwyd swyddi i ddau unigolyn, a chadarnhawyd y byddai'r Brifysgol Agored yn cynnig arian cyfatebol ar gyfer y ddwy swydd, dan nawdd Santander.
O ganlyniad i'r penodiad ychwanegol hwn, y gost ar gyfer SCHTh fydd £3,150 ar gyfer 2 fyfyriwr am 10 wythnos.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd gytuno bod SCHTh yn cyflogi myfyriwr interniaeth ychwanegol am 10 wythnos, am gost o £3,150 ar gyfer y ddau fyfyriwr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 20/11/19